**Jeremy Miles AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a’r Gymraeg**
**Cabinet Secretary for Economy, Energy and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Paul Davies AS, Cadeirydd
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

SeneddEconomi@senedd.cymru

30 Ebrill 2024

Annwyl Paul,

Mynychodd cyn Weinidog yr Economi sesiwn graffu gyffredinol gerbron y pwyllgor ar 13 Rhagfyr. Yn y sesiwn hon, gofynnodd Hefin David AS gwestiwn ar gyllid yr ardoll brentisiaethau. Ymrwymodd fy rhagflaenydd i ysgrifennu at y pwyllgor ynglŷn â'r mater hwn. Rwyf wedi atodi nodyn i'r llythyr hwn sy'n rhoi'r wybodaeth y gofynnwyd amdani.

Edrychaf ymlaen at gydweithio â'r pwyllgor.

Yn gywir,

**Jeremy Miles AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a’r Gymraeg
Cabinet Secretary for Economy, Energy and Welsh Language

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Gwybodaeth y gofynnwyd amdani gan Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**

**Ardoll Brentisiaethau**

1. Cyflwynwyd yr ardoll brentisiaethau drwy Ddeddf Cyllid 2016.

2. Mae'r ardoll yn cael ei thalu gan gyflogwyr mawr sydd â bil cyflog o dros £3 miliwn. Ar hyn o bryd, dim ond canran fach iawn o gyflogwyr sy'n talu'r ardoll, sydd wedi'i phennu ar gyfradd o 0.5% o gyfanswm eu bil cyflog blynyddol.

3. Yn Lloegr, mae gan bob cyflogwr sy'n talu'r ardoll gyfrif digidol lle gallant gael gafael ar eu cronfeydd ardoll i'w wario ar hyfforddiant prentisiaethau. Mae Llywodraeth y DU hefyd yn talu swm atodol o 10% i'r arian ym mhob cyfrif. Er mai dim ond y busnesau mwyaf sy'n talu'r ardoll, mae'r cyllid a gynhyrchir ganddo hefyd yn ariannu hyfforddiant prentisiaethau ar gyfer cyflogwyr eraill sydd am gyflogi prentisiaid. Mae cyflogwyr llai – y rhai sydd â chyfanswm bil cyflog blynyddol o lai na £3 miliwn – yn talu 5% yn unig o gost eu hyfforddiant prentisiaethau a Llywodraeth y DU sy'n talu'r gweddill.

**Cytundeb ariannu ardoll ar gyfer gweinyddiaethau datganoledig**

4. Cyflwynwyd yr ardoll fel modd o weithredu polisi sgiliau a chyflawni ymrwymiadau a wnaed ar gyfer Lloegr ac felly nid oedd yn ystyried nac yn darparu ar gyfer sefyllfa economaidd na pholisïau prentisiaethau'r gweinyddiaethau datganoledig.

5. Fodd bynnag, mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i ddarparu ‘cytundeb teg’ i'r gweinyddiaethau datganoledig i fod yn seiliedig ar gyfran y boblogaeth.

6. Mae'r tabl isod yn dangos cyllid a ddarperir i'r gweinyddiaethau datganoledig yn seiliedig ar gyfran[1] o'r boblogaeth:

| **Cyfran o'r boblogaeth o gyllid yr ardoll (£m)** | **2017-18** | **2018-19** | **2019-20** |
|---|---|---|---|
| Llywodraeth yr Alban | 221 | 230 | 239 |
| Llywodraeth Cymru | 128 | 133 | 138 |
| Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon | 76 | 79 | 82 |

7. Y nod i ddechrau oedd rhoi sicrwydd cyllid i weinyddiaethau datganoledig gan y byddai Llywodraeth y DU yn rheoli unrhyw wahaniaeth rhwng rhagolygon yr ardoll a refeniw gwirioneddol yr ardoll. Credwyd bod y cytundeb hwn sy'n seiliedig ar y boblogaeth yn gyson â dull cyffredinol y DU o rannu refeniw ledled y DU. Ar ôl 2019-20, unwaith i'r ardoll gael ei hymgorffori, roedd disgwyl i weithrediad arferol Fformiwla Barnett roi

[1] Ffynhonnell: https://www.gov.uk/government/news/uk-government-agrees-apprenticeship-levy-funding-deal-with-devolved-administrations

canlyniad tebyg. Mater i'r gweinyddiaethau datganoledig oedd penderfynu ar sut i ddyrannu'r cyllid hwn i'w cyfrifoldebau datganoledig.

8. Mae'n bosibl y bydd y ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi cael ei hariannu drwy gyfran o refeniw o'r ardoll yn y blynyddoedd cynnar, yn hytrach na symiau canlyniadol Barnett o'r gwariant arfaethedig cysylltiedig yn Lloegr, yn cael ei ystyried yn gydnabyddiaeth rannol, o leiaf, o'r anawsterau a achoswyd gan ei gyflwyniad.

9. Fodd bynnag, er bod Llywodraeth y DU wedi dyrannu adnoddau i Adrannau Whitehall yn Adolygiad Gwariant y DU yn 2015 er mwyn cwmpasu rhaglenni a ariannwyd gan yr ardoll brentisiaethau, cafodd yr ychwanegiadau hyn eu gwrthbwyso gan doriadau i raglenni eraill, gan gynnwys rhaglenni prentisiaethau presennol. Yn ei grynswth, roedd Adolygiad o Wariant Llywodraeth y DU yn 2015 yn golygu bod cyllideb Llywodraeth Cymru wedi cael ei lleihau mewn termau real.

| **Effaith rhaglenni prentisiaethau Llywodraeth y DU ar gyllideb Llywodraeth Cymru - Adolygiad o Wariant ar ôl 2015 (£m)** | | | |
|---|---|---|---|
| | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 |
| Cyllid yr ardoll brentisiaethau (cyfran o'r boblogaeth o refeniw disgwyliedig y DU) | 128 | 133 | 138 |
| Symiau canlyniadol o gau rhaglenni prentisiaethau presennol yn Lloegr | -90 | -90 | -90 |
| **Newid net i gyllid Llywodraeth Cymru** | **38** | **43** | **48** |
| Amcangyfrif o gost yr ardoll i gyrff sector cyhoeddus Cymru | -30 | -30 | -30 |
| **Effaith net newidiadau i gyllid prentisiaethau ar y sector cyhoeddus datganoledig** | **8** | **13** | **18** |

10. O 2020-21, mae'r ardoll a'r refeniw a godwyd ohoni yn amherthnasol o safbwynt cyllidebol Llywodraeth Cymru. Mae'r ardoll yn ffynhonnell gyllid i Lywodraeth y DU, ond mae arian grant bloc Llywodraeth Cymru yn dibynnu ar newidiadau i ariannu'r gwasanaethau cyhoeddus hynny yn Lloegr sydd wedi'u datganoli i Gymru, nid ar refeniw trethi'r DU.

## Taliadau'r ardoll brentisiaethau a wnaed gan gyflogwyr yng Nghymru

11. Yn ôl yr ONS, ar gyfartaledd mae 4% o gyfanswm yr ardoll brentisiaethau yn dod o Gymru. Mae'r ONS yn cyhoeddi amcangyfrif o refeniw'r ardoll brentisiaethau o Gymru, sef yn fwyaf diweddar £122m ar gyfer 2021-22. Amcangyfrifwyd ei fod yn £99m yn 2019-20. Mae hyn yn awgrymu y gallai cyllid sy'n gysylltiedig â'r ardoll sy'n dod i Gymru fod yn uwch na'r refeniw a gesglir yng Nghymru. Fodd bynnag, mae hyn yn ansicr gan fod ystadegau refeniw yr ONS yn amcangyfrifon oherwydd cyfyngiadau data. Maent yn cael eu dosrannu yn seiliedig ar ddata'r gweithlu ac enillion, yn hytrach na chyfeiriad y cyflogwyr sy'n talu'r ardoll.

12. Yn ogystal, nid oedd yr arian erioed yn gwbl ychwanegol yn y lle cyntaf, oherwydd bod cau rhaglenni prentisiaethau blaenorol yn Lloegr wedi cyd-fynd â chyflwyno'r ardoll. O'r herwydd, roedd yr effaith net ar gyllid Llywodraeth Cymru yn llai na'r refeniw a gasglwyd o'r ardoll, fel yn achos y gweinyddiaethau datganoledig eraill.

13. O 2020-21 ymlaen, pennwyd llinell sylfaen ar gyfer y refeniw ers 2019-20 ac mae Llywodraeth Cymru bellach yn derbyn symiau canlyniadol yn sgil newidiadau cyffredinol

i gyllideb yr Adran Addysg. Ni ellir adnabod newidiadau yn benodol o wariant prentisiaethau o fewn y symiau canlyniadol hyn. Felly, er bod Llywodraeth Cymru yn gwybod y symiau gwirioneddol a drosglwyddwyd dros dair blynedd gyntaf y broses o gyflwyno'r ardoll, nid oes gennym unrhyw wybodaeth bellach o ran beth yw'r symiau hyn.

14. Yn yr un modd, nid ydym yn gallu darganfod beth mae cyflogwyr unigol yn ei dalu mewn ardoll. Fodd bynnag, ar yr adeg pan ddechreuodd yr ardoll amcangyfrifodd Llywodraeth Cymru fod y gost i'r sector cyhoeddus oddeutu £30 miliwn.